

# Symud i Gartref Gofal Preswyl Awdurdod Lleol



## Am y ffeithlen hon

Mae'r ffeithlen hon ar gyfer pobl hŷn sy'n ystyried symud i un o'r cartrefi gofal preswyl sy'n cael eu cynnal gan Ddinas a Sir Abertawe, a'u teuluoedd. Mae'n esbonio'r broses derbyn a rhai o'r gweithdrefnau eraill sy'n berthnasol i symud i gartref preswyl.

## Gofal preswyl

Gallwch fod yn ystyried gofal preswyl gan eich bod yn teimlo na allwch fyw'n ddiogel yn eich cartref eich hun bellach, hyd yn oed gyda chefnogaeth, neu oherwydd newid yn eich iechyd, efallai yn dilyn arhosiad yn yr ysbyty. Gallwch wneud ymholiadau cychwynnol am symud i ofal preswyl eich hunain neu gall gofalwr neu aelod o'r teulu ymholi. Os oes eisoes gennych weithiwr cymdeithasol, gallent eich helpu gyda'r broses.

## Asesu eich anghenion

Nid yw gofal preswyl yn addas i bawb. Mae angen mwy o ofal iechyd ar rai pobl nag y gall cartref gofal preswyl ei ddarparu, a bydd angen iddynt ystyried cartref nyrsio. Bydd eraill yn gallu derbyn cefnogaeth fwy addas yn y gymuned. Felly, cyn i chi gael eich ystyried ar gyfer gofal preswyl, bydd rheolwr gofal o'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn trefnu ymweld â chi, yn eich cartref neu yn yr ysbyty, er mwyn cynnal asesiad cychwynnol o'ch anghenion. Byddant hefyd yn casglu gwybodaeth gan bobl neu sefydliadau eraill sydd wedi bod yn darparu cymorth i chi. Gall hyn gynnwys eich Meddyg Teulu, eich Nyrs Ardal, teulu, ffrindiau, gwasanaethau dydd neu Nyrs Seiciatrig Gymunedol. Gall hyn bennu a fyddai cartref preswyl yn gallu bodloni eich anghenion a'ch gofynion. Ceir mwy o wybodaeth am y broses asesu yn ein ffeithlen **Cael Help gan y Gwasanaethau**

## Cymdeithasol: canllaw i asesu a chymhwyster i oedolion.

Efallai y bydd yr asesiad yn nodi y gallai aros yn un o'n hunedau asesu preswyl eich galluogi i adennill galluoedd a gollwyd neu ddysgu ffyrdd newydd o wneud pethau drosoc eich hunan a bod yn fwy annibynnol o ganlyniad i hynny. Byddai asesiad parhaol o'ch anghenion yn cael ei gynnal yn ystod eich arhosiad gan fod llawer o bobl yn teimlo eu bod yn gallu dychwelyd adref, gyda chefnogaeth, ar ôl cyfnod o ail-alluogi arbenigol.

## Y broses dderbyn

Os bydd y broses asesu yn nodi mai gofal preswyl yw'r ffordd orau o fodloni eich anghenion, mae'n rhaid i'r argymhelliad gael ei gymeradwyo mewn cyfarfod yr uwch-staff er mwyn sicrhau bod eich anghenion yn cael eu bodloni'n briodol drwy ofal preswyl. Gall y cyfarfod hwn ofyn am fwy o wybodaeth, neu ystyried mathau eraill o gefnogaeth ymhellach.

Bydd asesiadau sy'n bodloni'r meini prawf yn cael eu hanfon at reolwr y cartref y mae gennych ddiddordeb ynddo. Gwneir trefniadau wedi hyn i chi gwrdd â'r rheolwr er mwyn cwblhau'r broses asesu.

## Ymweld â'r cartref

Ar ôl i ni gadarnhau bod lle ar gael, byddwch yn derbyn gwahoddiad i ymweld â'r cartref rydych wedi'i ddewis, cael cinio neu dreulio'r diwrnod yno. Mae'r trefniant hwn yn rhoi'r cyfle i chi gwrdd â phreswylwyr a staff ac asesu'r cyfleusterau eich hunan. Efallai yr hoffech ymweld mwy nag unwaith.

Ar ôl dod i adnabod y cartref, dylech fod mewn sefyllfa i benderfynu a hoffech dderbyn y lleoliad.

## Y cyfnod prawf

Bydd eich chwe wythnos gyntaf yn y cartref yn cael eu trin fel cyfnod prawf. Bydd y cyfnod prawf hwn yn rhoi cyfle i chi benderfynu a fyddech chi'n mwynhau byw yn y cartref gofal a bydd hefyd yn sicrhau y gall y cartref gofal fodloni eich anghenion a'ch disgwyliadau.

## Talu am eich gofal

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i bawb dalu rhywbeth tuag at gost y gofal preswyl. Mae swm y gost yn dibynnu ar faint o incwm ac asedau cyfalaf (arbedion ac eiddo) sydd gennych. Fel arfer byddwn yn cynnal Aseiad Ariannol er mwyn cyfrifo faint byddai angen i chi ei dalu. Mae mwy o wybodaeth yn ein ffeithlen **Talu am Ofal Preswyl**.

Byddwch yn cael gwybod yn ysgrifenedig am eich taliadau preswyl gan yr Uned Incwm a Chyllid Gwasanaethau Oedolion. Mae ein taliadau'n cael eu hadolygu'n flynyddol a byddwch yn cael gwybod am unrhyw newidiadau yn ôl yr angen.

Mae'r tâl yn cyfrannu tuag at gost y llety, staff ac offer. Bydd staff hyfforddedig ar ddyletsydd 24 awr y dydd er mwyn darparu gwasanaeth o safon uchel. Mae'r tâl hefyd yn cynnwys cost prydau bwyd, golchi dillad, gwresogi a goleuo, cynnal a chadw'r tiroedd ac adeiladau a dodrefn y cartref.

Nid yw pob cost wedi'i chynnwys, megis trin gwallt, papurau newydd, cylchgronau ac unrhyw wasanaethau gofal personol eraill. Os oes angen y rhain arnoch, byddai rhaid i chi dalu amdanynt eich hunain.

## Beth os bydd fy anghenion yn newid ar ôl i mi symud i mewn?

Os bydd eich amgylchiadau yn newid ac nid ydym yn gallu bodloni eich anghenion yn y cartref, bydd eich rheolwr gofal, yn ogystal ag asiantaethau proffesiynol perthnasol, yn asesu eich anghenion newydd ac yn trafod pa opsiynau eraill sydd ar gael i chi. Gall hyn ddigwydd pan fydd angen mwy o gefnogaeth ychwanegol arnoch nag y gall Nyrs Ardal ei darparu mewn cartref gofal preswyl. Nid yw

cartrefi gofal preswyl y cyngor wedi cofrestru i ddarparu gofal nyrsio. Byddwch yn cael eich cynnwys yn llawn yn y penderfyniadau hyn.

Os byddwch yn penderfynu gadael eich llety, bydd eich rheolwr gofal, ar gais, yn eich cefnogi i ddod o hyd i lety arall. Byddai angen i chi roi mis o rybudd.

## Sut i gysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol

Os nad oes gennych reolwr gofal, cysylltwch â:

### Pwynt Mynediad Cyffredin ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Ffôn: 01792 636519

E-bost: [PMC@abertawe.gov.uk](mailto:PMC@abertawe.gov.uk)

## Gwasanaethau Cymdeithasol Abertawe a gwybodaeth bersonol

Cyngor Abertawe yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth bersonol rydych yn ei rhoi i ni. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio wrth i ni arfer ein hawdurdod swyddogol ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddibenion eraill. Ni fyddwn yn rhannu'ch data ag unrhyw drydydd parti oni bai fod y gyfraith yn gofyn neu'n caniatáu i ni wneud hynny.

Mae cyfraith diogelu data'n disgrifio'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data yn ôl yr angen er mwyn cyflawni tasg gyhoeddus (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014).

Am fwy o wybodaeth am sut mae Cyngor Abertawe'n defnyddio'ch data personol, gan gynnwys eich hawliau fel testun data, gweler ein hysbysiad preifatrwydd corfforaethol ar ein gwefan

[www.abertawe.gov.uk/Preifatrwyddacwcis](http://www.abertawe.gov.uk/Preifatrwyddacwcis).

Gallwn roi mwy o wybodaeth i chi ynghylch sut rydym yn trin gwybodaeth bersonol. Ffoniwch 01792 636902 am y ffeithlen *Eich Gwybodaeth Bersonol*.

## Sylwadau a chwynion

Rydym yn croesawu sylwadau am ein gwasanaethau - boed hynny'n dda neu'n ddrwg. Rydym am glywed sut y gallem wneud pethau'n well, ac rydym yn hoffi gwybod pan fyddwn yn gwneud yn dda.

Os ydych yn anfodlon ar y gwasanaethau rydych yn eu derbyn, rydym yn eich annog i gwyno. Rhoddir manylion llawn yn y ffeithlen **Cyflwyno sylwadau, cwynion neu ganmoliaeth am y Gwasanaethau Cymdeithasol**. I gael mwy o gyngor neu wybodaeth am gwyno, gallwch ffonio ein Swyddogion Cwynion ar 01792 637345.

---

Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael mewn fformatau eraill, megis print bras, ar CD sain, mewn Braille, neu'n electronig. Ffoniwch 01792 636902 am gopïau.